


# DYLUNIWCH MASGOT EIN SIOP Y PENTREF

Mae'n Siop y Pentref wedi lansio man ail-lenwi newydd - lle i siopa am fwyd gwych heb y gwastraff plastig! Mae angen i chi ddylunio masgot i'r Siop Ail-lenwi i ddathlu a hyrwyddo ein siop ail-lenwi newydd!

HINSAWDD • CYSTADLEUAETH

AIL-LENWI • ECO • MASGOT

CREADIGOL • DYLUNIO • ARWR SERO

**Cysylltwch ag:**
**Emily ar 07792 512764**
**neu e-bostiwch**
**emily@footholdcymru.org.uk**

Rhaid cyflwyno pob cais erbyn hanner nos ar ddydd Sul 3ydd Tachwedd.

Ceisiadau e-bost at:
emily@footholdcymru.org.uk
neu WhatsApp/Neges:
07792 512764

BYDD CEISIADAU'R GYSTADLEUAETH YN CAEL EU HARDDANGOS YN Y SIOP!

BYDD Y CAIS BUDDUGOL YN CAEL SYLW AR DDEUNYDDIAU HYRWYDDO

Mae Foothold Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif: 1188969

FOOTHOLD CYMRU
NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP
www.footholdcymru.org.uk

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

**C: Pa ddeunyddiau allaf i eu defnyddio i ddylunio fy masgot?**
A: Defnyddiwch unrhyw ddeunyddiau rydych wrth eich bodd yn gweithio â nhw—paent, creons, collage, inc, pensiliau, argraffu, neu unrhyw beth arall sy'n eich ysbrydoli! 🎨✂

**C: Am beth fydd y beirniaid yn chwilio?**
A: Byddant yn chwilio am fasgot sy'n dathlu byw'n eco, heb blastig. Bydd ganddynt ddiddordeb hefyd mewn unrhyw beth sy'n cyd-fynd â'n Siop Ail-lenwi, sy'n gwerthu grawn, pasta, nwyddau sych ac eitemau i'r cartref.

**C: Pa faint ddylai fy nghais fod?**
A: Cyflwynwch eich gwaith celf ar bapur A4.

**C: Pa wybodaeth ddylwn i ei chynnwys gyda fy nghais?**
A: Wrth gyflwyno eich gwaith celf, anfonwch hefyd enw eich masgot, enw ac oedran yr artist, ac enw a rhif cyswllt y rhiant/gwarcheidwad.

**C: Rwy'n athro ac rwyf am i'm dosbarth gymryd rhan. Beth ddylen ni ei wneud?**
A: Wrth gyflwyno eich gwaith celf, anfonwch enw'r masgot, enw ac oedran yr artist, enw'r ysgol, enw'r athro, a rhif cyswllt yr ysgol.

**C: Sut mae cyflwyno cais?**
A: Cymerwch lun neu sgan clir o'r gwaith celf (gyda chyn lleied o gefndir â phosibl) a'i e-bostio at emily@footholdcymru.org.uk neu neges/WhatsApp at 07792 512764. Dylech gynnwys y manylion uchod yn yr e-bost neu'r neges.

**C: Pryd mae'r dyddiad cau?**
A: Rhaid cyflwyno pob cais erbyn hanner nos ar ddydd Sul 3ydd Tachwedd. ⏰

**C: Pryd fydd y gystadleuaeth yn cael ei beirniadu?**
A: Cynhelir y beirniadu yr wythnos sy'n dechrau 4ydd Tachwedd, a hysbysir yr enillydd yr wythnos ganlynol, sy'n dechrau 11eg Tachwedd.

**C: Beth os bydd fy nghais yn ennill?**
A: Bydd y masgot buddugol yn dod yn wyneb y Siop Ail-lenwi! Bydd yn cael ei gynnwys ar ein deunyddiau marchnata a'i arddangos yn Siop y Pentref.

**C: Beth fydd yn digwydd i'r holl geisiadau?**
A: Bydd yr holl geisiadau yn cael eu harddangos yn Siop y Pentref i bawb gael eu hedmygu!


**Mae Foothold Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif:1188969**

FOOTHOLD CYMRU
NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP
www.footholdcymru.org.uk

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU